Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Ty Hywel
Caerdydd, CF99 1NA

25 Ebrill 2017

Annwyl Alun

**Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg**

Diolch am ein cyfarfod ar 5 Ebrill ac am y diweddariad a gefais ar drefniadau paratoi tuag at y papur gwyn ar ddiwygio Mesur y Gymraeg.

Roedd yn ddefnyddiol iawn cael crynodeb o'ch canfyddiadau yn dilyn cynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid. Er mwyn bwydo'r broses honno wrth i chi fynd ati i lunio papur gwyn, dyma gyflwyno rhai sylwadau a safbwyntiau i chi eu hystyried.

Mae pum mlynedd erbyn hyn ers i mi gychwyn fel Comisiynydd, ac ers i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddechrau cael ei weithredu. Ffrwyth hen gyfundrefn gyfreithiol y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) yw Mesur y Gymraeg, pan nad oedd gan Gymru bwerau deddfu llawn ei hun, a phan oedd gwleidyddion San Steffan yn craffu ar fesurau Cymreig. Mae gan Gymru bwerau deddfu llawn mewn meysydd datganoledig erbyn hyn, felly credaf ei bod hi'n amserol i fynd yn ôl at y Mesur i'w gryfhau a'i lyfnhau er mwyn gwarchod hawliau a sicrhau cyfiawnder i bobl Cymru.

Ar 30 Mawrth 2016 daeth hawliau newydd i bobl Cymru ddefnyddio'r Gymraeg. Daeth yr hawliau hyn yn sgil gosod safonau ar 26 o sefydliadau, sef awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol. Erbyn 25 Ionawr 2017 roedd hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi ehangu ymhellach gyda safonau yn weithredol mewn 30 sefydliad newydd ac ar 30 Mawrth 2017 daeth safonau'n weithredol i 22 sefydliad arall.

Erbyn hyn felly mae gan bobl Cymru hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cysylltiadau gyda 78 o sefydliadau cyhoeddus ac fel y gwyddoch mae rhaglen waith ar fynd i ychwanegu'r sectorau addysg bellach ac uwch; cwmnïau Dŵr; a'r sector iechyd i'r rhestr hynny.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae hi wedi bod yn daith hir i gyflawni'r holl gamau statudol er mwyn gosod y safonau a gwneud yr hawliau hyn yn weithredol.  Rwyf wedi datgan yn flaenorol fy mod yn awyddus i'r drefn fod yn llai beichus er mwyn hwyluso'r broses o osod safonau.  I'r perwyl hynny rydym wedi bod mewn cyswllt yn ddiweddar ynghylch ychwanegu cyrff i Reoliadau sydd eisoes wedi eu gwneud ac yn cytuno bod hynny'n ddull ymarferol o ddod â mwy o gyrff o dan y drefn safonau heb yr angen i gynnal ymchwiliadau safonau mewn rhai amgylchiadau.  Credaf bod hyn yn enghraifft o gydweithio i hwyluso'r drefn heb yr angen i ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod, mae'n bosibl bod elfennau eraill o'r broses safonau y gellir eu hwyluso heb yr angen i ddiwygio a byddwn yn fodlon iawn ystyried hynny ymhellach gyda chi.

Pwrpas y safonau yw i gefnogi pobl Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg drwy roi hawliau iddynt a sicrwydd bod modd iddynt wneud hynny. Mae'n ddyddiau cynnar ar hyn o bryd o ran gwerthuso llwyddiant y safonau, ond mae arwyddion bod y safonau'n cael effaith gadarnhaol a gallaf rannu rhagor o wybodaeth gyda chi am hynny yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Mae nifer o bartïon wedi buddsoddi amser ac adnoddau yn y gyfundrefn safonau dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf ac rydym wedi cyrraedd pwynt erbyn hyn lle mae'r safonau'n weithredol ac yn dechrau dwyn ffrwyth.  Er fy mod yn derbyn yr angen i adolygu'r broses o osod a gweithredu'r safonau, mae'n bwysig cael y balans yn iawn er mwyn hwyluso darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a defnydd o'r iaith.  Rwy'n credu mai mireinio'r drefn sydd ohoni sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau da ac y dylid osgoi gwneud newidiadau sylweddol a fyddai'n debygol o lesteirio cynnydd mewn gwasanaethau am gyfnod er mwyn sefydlu trefniadau newydd.

Wrth ystyried mireinio'r drefn safonau, mae'n bwysig hefyd ystyried pam fod y drefn hon wedi ei datblygu yn y lle cyntaf ac anawsterau'r drefn flaenorol o gynlluniau iaith.  Er eu bod wedi llwyddo i sefydlu'r egwyddor o wasanaeth Cymraeg yn y sector gyhoeddus, roedd y ddarpariaeth yn aml yn anghyson, yn annigonol ac yn ddiffygiol mewn nifer o gyd-destunau.  Roedd cynnwys y cynlluniau iaith yn amrywiol iawn a oedd yn arwain at ansicrwydd a chymhlethdod i ddefnyddwyr gwasanaethau ac roedd diffyg pwerau gorfodi Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn tanseilio cynnydd ac yn golygu nad oedd hyder yn y system.

Yn wahanol i gynlluniau iaith, mae'r dyletswyddau a osodir drwy safonau yn fwy cyson ac yn fwy parhaol.  Mae gan y Comisiynydd bwerau statudol i ymchwilio i amheuon o fethiant i gydymffurfio â safonau a phwerau gorfodi. Er bod nifer sylweddol o safonau a'u bod yn fanwl, mae'r darpariaethau yn gyson a'r gwahaniaethau yn llai nag yn achos y gyfundrefn cynlluniau iaith.  Dros amser fe ddylai'r hawliau sy'n deillio o'r safonau fod yn llawer fwy eglur i ddefnyddwyr ac arwain at hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau ac wrth dderbyn gwasanaethau.

Mae cyfundrefn ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd ymrwymiadau yn cael eu gweithredu.  Yn rhy aml gyda chynlluniau iaith gwelwyd bod yr ymrwymiadau yn weddol uchelgeisiol ond bod y gweithredu yn ddiffygiol.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae'r newid sylweddol sydd wedi gorfod digwydd i symud sefydliadau o'r gyfundrefn cynlluniau iaith i gyfundrefn safonau yn anorfod wedi cymryd amser i sefydlu. Bu trafodaethau anodd gyda rhai awdurdodau ac ni fydd pob sefydliadau mewn rheoliadau safonau dilynol yn derbyn y gyfundrefn newydd yn syth ychwaith. Wrth gwrs, mae'n ofynnol i mi beidio gosod safonau sydd ddim yn rhesymol a chymesur, ond mae'n ofynnol i mi ystyried llais y defnyddiwr hefyd. Y gwir amdani yw bod angen trawsnewid darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru ac nid yw gwneud hynny yn mynd i fod yn rhwydd. Mae cael siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ganolog i weledigaeth y Llywodraeth a'm gweledigaeth innau fel Comisiynydd ac rwy'n argyhoeddedig y gwnaiff safonau dros amser arwain at y newid sydd ei angen er mwyn rhoi'r hyder a'r sicrwydd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau yng Nghymru. Wrth i ni symud yn gynyddol i'r cyfnod o weithredu safonau, mae fy swyddogion yn darparu cyngor, gwybodaeth, a chyfleoedd briffio i sefydliadau ar sut i gydymffurfio'n llwyddiannus. Bydd y gwaith yma'n datblygu ymhellach dros y cyfnod nesaf wrth i ragor o sefydliadau ddod o dan y drefn safonau.

Yn olaf hoffwn gyfeirio at ddau faes arall y byddwch rwy'n siwr yn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Mesur; sef hybu'r Gymraeg ac addysg Gymraeg. Mae gan y Comisiynydd a'r Llywodraeth swyddogaethau hybu, ac mae nifer fawr o sefydliadau eraill yn weithredol yn y maes. Wrth reswm nid yw iaith yn hyfyw os nad yw ei siaradwyr yn ei defnyddio, ac mae'n rhaid cael sail statudol cadarn mewn er mwyn i iaith ddatblygu. Ni ellir disgwyl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith os nad oes ganddynt hyder bod gwasanaethau cyhoeddus pwysicaf Cymru yn cael eu darparu yn yr iaith. Ni all hynny ddigwydd heb gyfundrefn gadarn mewn lle i gefnogi hynny.

Mae'r drafodaeth am ddiwygio'r Mesur yn gyfle i ystyried a oes angen mwy o eglurder ynghylch gwaith hybu. Rwyf wedi ysgrifennu atoch yn flaenorol ynghylch asiantaeth y Gymraeg, ac fel y gwyddoch mae fy swyddfa yn darparu cyngor a chymorth i'r sector preifat a'r trydydd sector er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg ac yn ymgymryd a gwaith arbenigol fel cynghori ar ffurfiau enwau lleoedd. Mae'n briodol fy mod yn gallu parhau gyda'r gwaith hwn ble mae cysylltiadau ac arbenigedd wedi eu datblygu dros gyfnod o amser. Mae ein swyddogion yn cydweithio i drafod cyfleoedd i ddylanwadu ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion. Bydd angen i hynny barhau wrth i ragor o adnoddau gael ei fuddsoddi yn y maes.

Mater arall sydd wedi derbyn cryn sylw gan y Llywodraeth a minnau'n ddiweddar yw'r cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg (WESPs). Yn sicr rwy'n croesawu eich penderfyniad i gomisiynu adolygiad brys o'r broses a bydd gennyf ddiddordeb gweld y canfyddiadau. Credaf bod y drafodaeth ar ddiwygio Mesur y Gymraeg yn gyfle i ystyried a yw'r strwythur deddfwriaethol presennol ar gyfer cefnogi addysg Gymraeg yn addas ac a yw Bil y Gymraeg yn gerbyd priodol ar gyfer datrys hynny.

I grynhoi felly, er fy mod yn croesawu'r bwriad i adolygu Mesur y Gymraeg, rwyf o'r farn mai mireinio'r drefn safonau sydd ei angen yn hytrach na gwneud newidiadau pellgyrhaeddol. Mae risg y gallai newidiadau sylweddol lesteirio'r cynnydd sydd wedi ei

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

wneud hyd yma i wella gwasanaethau Cymraeg.  Ni fyddai cyfnod arall o ansicrwydd a gosod trefniadau newydd yn llesol i ymdrechion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau uchod yn ddefnyddiol wrth i chi gynllunio ar gyfer y papur gwyn. Byddai'n ddefnyddiol i'n swyddogion barhau i gyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn trafod rhai o'r materion hyn a'r negeseuon sydd wedi eu cyfleu gan randdeiliaid.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg